OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 256 (Cy.22)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2005

Wedi'u gwneud - -	*8 Chwefror 2005*
Yn dod i rym - -	*25 Chwefror 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraffau 1 a 2(2) o Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**), ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol o ran Cymru, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2005 a deuant i rym ar 25 Chwefror 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993(**3**).

Diwygio'r prif Reoliadau

3.—(1) Diwygir paragraff 1 o Ran I o Atodlen 2 i'r prif Reoliadau fel a ganlyn:

(2) Yn y nodyn sy'n dwyn y teitl "Rateable Value", yn lle "1st April 2000", rhodder "1 April 2005" ac, yn lle "1st April 1998", rhodder "1 April 2003".

(3) Yn lle'r nodyn sy'n dwyn y teitl "Backdating of proposals and appeals", rhodder y canlynol—

(**1**) 1988 p.41. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraffau 1 a 2(2) o Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**2**) 1993 p.38. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672.

(**3**) O.S. 1993/252 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1995/284; O.S. 1996/311; O.S. 1996/1880; O.S. 1997/356; O.S. 1998/155; O.S. 2000/793 (Cy.30) ac O.S. 2003/414 (Cy.59).

"**Proposals and Appeals**

There are important changes being made to the rules surrounding the making of proposals for appeals under the new rateable values for 1 April 2005.

Information about the circumstances in which a change in rateable value may be proposed and how such a proposal may be made is available from the local valuation office shown above. Further information about the new appeal arrangements may be obtained from *name of billing authority*, or from the National Assembly for Wales, Local Taxation Team, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or the Valuation Office Agency, whose website is www.voa.gov.uk.

A leaflet is available giving detailed information on the revaluation and appeals arrangements. A copy is available on the National Assembly for Wales website at www.wales.gov.uk or alternatively a copy can be requested from the National Assembly for Wales, Local Taxation Team, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.".

(4) Ar ôl y nodyn sy'n dwyn y teitl "Proposals and appeals", mewnosoder y canlynol—

"**2005 Revaluation**

Please note with effect from 1 April 2005 new rateable values will be used to calculate business rates. A draft rating list containing the Rateable Values of each business has been available for public inspection since September 2004. This can be viewed on the Valuation Office Agency website www.voa.gov.uk or by contacting your billing authority at *insert billing authority address.".*

(5) Yn y nodyn sy'n dwyn y teitl "Charitable and discretionary relief", mewnosoder y canlynol ar ddiwedd y nodyn hwnnw—

"In addition to this, and with effect from 1 April 2004, a mandatory rate relief of 80 percent will be granted to community amateur sport clubs, provided that clubs are defined and registered as such with the Inland Revenue. For more information you should contact *insert Inland Revenue address*, their website is http://www.inlandrevenue.gov.uk/.".

(6) Dileer y paragraff sy'n dwyn y teitl "Transitional arrangements".

(7) Dileer y paragraff sy'n dwyn y teitl "Small property relief".

4.—(1) Diwygir paragraff 1 o Ran II o Atodlen 2 i'r prif Reoliadau fel a ganlyn:

(2) Yn y nodyn sy'n dwyn y teitl "Gwerth Trethiannol", yn lle "1 Ebrill 2000", rhodder "1 Ebrill 2005" ac, yn lle "1 Ebrill 1998", rhodder "1 Ebrill 2003".

(3) Yn lle'r nodyn sy'n dwyn y teitl "Ôl-ddyddio cynigion ac apelau", rhodder y canlynol—

"**Cynigion ac Apelau**

Gwneir newidiadau pwysig i'r rheolau ynghylch gwneud cynigion am apelau o dan y gwerthoedd ardrethol newydd ar gyfer 1 Ebrill 2005.

Mae gwybodaeth am yr amgylchiadau y gellir cynnig newid yn y gwerth ardrethol oddi tanynt, ac am sut y gellir gwneud cynnig o'r fath ar gael gan eich swyddfa brisio leol, a welir uchod. Gellir cael gwybodaeth bellach am y trefniadau apelio newydd oddi wrth *enw'r awdurdod bilio* neu oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru, y Tîm Trethiant Lleol, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, neu Asiantaeth y Swyddfa Brisio; ei gwefan yw: www.voa.gov.uk.

Mae taflen ar gael sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am y trefniadau ailbrisio ac apelio. Mae copïau ar gael oddi ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn: http://www.cymru.gov.uk/ neu, fel arall, gellir mynnu copi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, y Tîm Trethiant Lleol, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.".

(4) Ar ôl y nodyn sy'n dwyn y teitl "Cynigion ac apelau" mewnosoder y canlynol—